



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**CYNGOR YMGYNGHOROL
SEFYDLOG AR ADDYSG
GREFYDDOL**

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2019-2020

NEGES GAN AELODAU CYSAG CAERFFILI

Mae blwyddyn academiaidd 2019-2020 wedi bod yn adeg eithriadol i bobl o ganlyniad i effaith y pandemig COVID-19. Mae aelodau CYSAG yn meddwl am bawb y mae'r feirws wedi effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi bod yn sâl ac a allai fod wedi colli anwyliad. Hoffai'r aelodau hefyd ddiolch i bawb yn y sector addysg am y gwaith rhagorol rydych yn ei wneud i ddarparu gofal, cymorth ac addysg i blant a phobl ifanc yng Nghymru drwy gydol yr adeg anodd hon.

Hoffai'r aelodau atgoffa ymarferwyr sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol fod CYSAG yma i'ch helpu gyda chynghor ar addysgu, dysgu ac adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol, yn ogystal â chynghor ar Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae cymorth CYSAG ar gael hefyd ar gyfer y Weithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd.

Mae CYSAG Caerffili yn croesawu gohebiaeth trwy'r cysylltiadau isod:

Rebecca Barrett, Clerc CYSAG Caerffili
Cyfeiriad e-bost: barrerm@caerffili.gov.uk

Paula Webber, Cynghorydd Dysgu Proffesiynol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
(Addysg Grefyddol a CYSAG)
Cyfeiriad e-bost: paula.webber@sewaleseas.org.uk

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG
GREFYDDOL CAERFFILI**

2019 - 2020

CYNNWYS	TUDALEN
ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG	3
1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG	3
1.2 Cyfansoddiad CYSAG	3
1.3 Aelodaeth CYSAG	3
1.4 Swyddogaethau CYSAG	4
1.5 Cyfarfodydd	4
1.6 Dosbarthu'r Adroddiad	4
CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG	4
ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL	8
2.1 Y Maes Llafur Cytûn Lleol	8
2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol	8
2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon	9
ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD	14
3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion	14
3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau	14
3.3 Ymweliadau ag Ysgolion	15
ADRAN 4: MATERION ERAILL	15
4.1 CCYSAGauC	15
4.2 Addysgu am yr Holocaust	15
4.3 Y Cwricwlwm i Gymru 2022	16
4.4 Hyfforddiant ar gyfer Aelodau CYSAG	19
4.5 Aelodaeth CYSAG	20
ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG 2019-2020	22
ATODIAD 2: RHESTR O'R CYFARFODYDD A'R AGENDÂU	23
ATODIAD 3: DOSBARTHU'R ADRODDIAD	24

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL CAERFFILI

2019- 2020

ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG

1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) yn ei ardal leol.

1.2 Cyfansoddiad CYSAG

Mae angen y gynrychiolaeth ganlynol ar CYSAG: -

- Enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill a fydd, ym marn yr Awdurdod Lleol, yn adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal mewn ffordd briodol
- Cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon
- Yr Awdurdod Lleol

Penderfynodd yr Awdurdod Lleol y dylai'r CYSAG gynnwys chwe aelod etholedig, saith corff sy'n cynrychioli crefydd a chred a saith cynrychiolydd o gymdeithasau athrawon. At hynny, caniatodd yr Awdurdod i ddau unigolyn arall gael eu cyfethol. Mae'r ddau le cyfetholedig yn wag ar hyn o bryd (gweler 1.3 ar gyfer camau i lenwi swyddi gwag).

1.3 Aelodaeth CYSAG

Mae'r rhestr aelodaeth sy'n dangos y sefyllfa ar gyfer 2019 – 2020 wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

Gwnaed pob ymdrech i geisio sicrhau cynrychiolaeth o blith sefydliadau crefyddol nad ydynt yn rhai Cristnogol, ond mae CYSAG wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i gynrychiolaeth o'r fath. O ran Pwyllgor A, gofynnwyd am gyngor gan Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (CYTŪN), Ymddiriedolaeth Onyx Link a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru er mwyn ceisio cynrychiolaeth. Ymunodd cynrychiolydd o Ddyneiddwyr Cymru â CYSAG am y tro cyntaf yn ystod Tymor yr Hydref 2019. Recriwtiodd CYSAG Caerffili ddau aelod newydd i eistedd ar Bwyllgor B yn cynrychioli NASUWT. Mae CYSAG wedi cysylltu â'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau sawl gwaith ynghylch y swydd wag ar Bwyllgor B, ond nid yw wedi cael ateb eto.

Mae CYSAG Caerffili wrthi'n cyfethol cynrychiolwyr o blith pobl ifanc i CYSAG er mwyn rhoi llais i ddysgwyr. Ceisir enwebiadau o'r Fforwm Ieuenctid. Mynychodd y Cadeirydd Fforwm Ieuenctid yn ystod Tymor yr Hydref 2019 i siarad â'i aelodau am waith CYSAG. Mae'n siomedig bod y pandemig COVID-19 wedi tarfu ar y gwaith hwn i recriwtio pobl ifanc i CYSAG. Fodd bynnag, mae CYSAG Caerffili yn edrych ymlaen at groesawu pobl ifanc i'r cyngor ymgynghorol, o bosibl, ym mlwyddyn academiaidd 2020-2021.

1.4 Swyddogaethau CYSAG

- Cyngori'r Awdurdod Lleol ar addoli a'r addysg grefyddol i'w rhoi yn unol â'r maes llafur cytûn, gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon

- Ystyried a ddylid argymhell bod yr Awdurdod Lleol yn adolygu ei faes llafur cytûn presennol drwy gynnal Cynhadledd ar y Maes Llafur Cytûn
- Ystyried a ddylid amrywio'r gofyniad y dylai addoli crefyddol mewn ysgol sirol fod yn 'lled Gristnogol ei natur' (penderfyniadau)
- Cyflwyno adroddiad ar ei weithgareddau i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.

1.5 Cyfarfodydd

O ganlyniad i'r aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig COVID-19, dim ond unwaith y llwyddodd CYSAG i gyfarfod yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar 23 Hydref 2019. Canslwyd y cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer Tymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf. Ymdriniodd swyddogion ac aelodau CYSAG â gohebiaeth frys ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru trwy e-bost, a chynhaliodd swyddogion CYSAG gyfarfodydd anffurfiol trwy Microsoft Teams.

Mae CYSAG wedi penderfynu y caiff cyfarfodydd eu cynnal mewn lleoliadau amgen fel ysgolion neu fannau addoli lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, yn ystod blwyddyn academaidd 2020 – 2021, mae'n debygol y bydd angen i gyfarfodydd gael eu cynnal ar blatfform rhithwir Microsoft Teams.

1.6 Dosbarthu'r Adroddiad

Caiff copiâu o'r adroddiad hwn eu dosbarthu'n electronig i'r cyrff a'r sefydliadau hynny a restrir yn Atodiad 3. Mae hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan CCYSAGauC.

CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG

Yn anochel, effeithiodd y pandemig COVID-19 ar y gwaith a wnaed gan CYSAG Caerffili yn ystod 2019-2020. Mae'r Awdurdod Lleol a CYSAG wedi gallu cynorthwyo ysgolion trwy e-bost a thrwy'r gwaith partneriaeth gyda Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru. Mae Cynghorydd Dysgu Proffesiynol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i CYSAG, sef Ms Paula Webber, wedi bod ar gael i roi cyngor a chymorth i ysgolion ar Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd drwy gydol y cyfyngiadau symud cenedlaethol, ac mae wedi parhau i weithio gyda Chymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC) a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG). Yn ogystal, mae Clerc CYSAG wedi parhau i dderbyn a dosbarthu gohebiaeth berthnasol i ysgolion.

Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r awdurdod lleol gan CYSAG

ADDYSG GREFYDDOL

Mater

Monitro'r ddarpariaeth a'r safonau mewn Addysg Grefyddol

Cam Gweithredu

1. Mae CYSAG yn ystyried adroddiadau arolygu ysgolion ac yn eu dadansoddi. Os bydd unrhyw broblemau o ran Addysg Grefyddol, megis methu â bodloni

gofynion statudol, yna bydd yr Awdurdod Lleol yn cymryd camau dilynol. Yn ystod 2019-2020, ni amlygwyd unrhyw achosion o fethu â bodloni gofynion statudol ar gyfer Addysg Grefyddol yn yr adroddiadau, ac roedd camau dilynol yn ddiangen. Ysgrifennodd CYSAG at yr ysgolion i'w llongyfarch ar eu canlyniadau arolygu a'u hatgoffa o'r cymorth cynghori a gynigir gan CYSAG a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

2. Fel arfer, mae CYSAG yn ymweld ag ysgolion bob blwyddyn i gael cyflwyniad ar Addysg Grefyddol yn yr ysgol. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd yr ymweliadau cynlluniedig hyn o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.
3. Fel arfer, mae CYSAG yn dadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd i amlygu tueddiadau mewn perfformiad wedi'u meincnodi yn erbyn data Cymru gyfan. Trwy'r broses hon, hysbysir ysgolion am ganlyniadau'r dadansoddiad hwn ac mae CYSAG yn gallu codi materion y dylai ysgolion fod yn mynd i'r afael â nhw oherwydd y dadansoddiad hwn. Ni chynhaliwyd y dadansoddiad hwn ym mlwyddyn academiaidd 2019 – 2020 oherwydd bod cyfarfodydd wedi cael eu canslo. Yn ogystal, mae rheoliadau newydd ar waith ynglŷn â chasglu data o ysgolion. Mae CCYSAGauC yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â pha ddadansoddiad pwrpasol o ddata a allai ddigwydd i fonitro ansawdd Addysg Grefyddol mewn ysgolion yn y dyfodol. Yna, bydd CYSAG yn ystyried y ffordd orau o fonitro ansawdd addysg grefyddol mewn ysgolion yng Nghaerffili.

Mater

Bodloni'r gofyniad cyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol bob pum mlynedd a sicrhau bod ysgolion yn rhoi'r maes llafur cytûn ar waith

Cam Gweithredu

1. Yn 2008, cymeradwyodd a mabwysiadodd y Gynhadledd Sefydlog faes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion yr Awdurdod, a rhoddwyd y maes llafur hwnnw ar waith ym mis Medi 2008. Ym mis Mehefin 2013, cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog ail-fabwysiadu Maes Llafur Cytûn Caerffili ar gyfer Addysg Grefyddol gan gredu y câi'r maes llafur ei adolygu unwaith y byddai rhagor o wybodaeth wedi dod i law am yr asesiad a'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol. Ym mis Mai 2019, sefydlwyd Cynhadledd ar y Maes Llafur Cytûn ac ail-fabwysiadwyd maes llafur cytûn 2008.
2. Mae CYSAG wedi cael diweddariadau e-bost ers hynny am ddatblygiadau yn ymwneud â'r Cwricwlwm a Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Yn ystod 2019-2020, ymatebodd CYSAG i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r cwricwlwm.
3. Mae CYSAG yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar y fframwaith ategol drafft ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg cyn iddo gael ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Ar ôl i'r fframwaith gael ei gyhoeddi, bydd CYSAG yn cynghori'r awdurdod lleol i gynnull cynhadledd Maes Llafur Cytûn lle y trafodir mabwysiadu neu addasu'r fframwaith fel Maes Llafur Cytûn Caerffili.

DEUNYDDIAU ADDYSGU

Mater

Sicrhau bod ysgolion yn cael eu hysbysu am adnoddau addas ar gyfer Addysg Grefyddol.

Cam Gweithredu

Anfonwyd y wybodaeth a'r adnoddau canlynol at ysgolion, ac anfonwyd copi o'r wybodaeth at aelodau CYSAG hefyd

1. Hysbyswyd pob ysgol am thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2020 a'r ffaith bod adnoddau am ddim ar yr Holocost ar gael ar [wefan Diwrnod Cofio'r Holocost](#) - gan gynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafleddi gwaith sy'n addas ar gyfer disgyblion cynradd hyd at fyfyrwyr ôl-16.
2. Adnoddau Dysgu Addysg Grefyddol – anfonwyd Randolph's Spiritual Quest at bob ysgol gynradd.
3. Anfonwyd Ysgoloriaethau Farmington 2020/21 at bob ysgol.
4. Anfonwyd Ysgolion Rhwydwaith Dysgu a chynnig o gymorth at bob ysgol.
5. Anfonwyd gwybodaeth am ddigwyddiad hyfforddi "Deall Dyneiddiaeth" at bob ysgol gynradd.
6. Anfonwyd holiadur gan Gymwysterau Cymru ar y cymwysterau TGAU diwygiedig at bob ysgol uwchradd.

Mae gwybodaeth am ymweliadau ac ymwelwyr â De Cymru ar gael i ysgolion ar gais.

DYSGU PROFFESIYNOL AR GYFER ATHRAWON

Mater

Sicrhau bod athrawon yn gallu cael dysgu proffesiynol priodol.

Cam Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi darparu hyfforddiant penodol ar Addysg Grefyddol i ymarferwyr ysgolion uwchradd drwy arweinwyr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu a'r Cynghorydd Dysgu Proffesiynol ar gyfer Addysg Grefyddol a CYSAGau. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar wella safonau mewn TGAU Astudiaethau Crefyddol. Fodd bynnag, cafodd yr ymarferwyr a oedd yn bresennol hyfforddiant ar y cwricwlwm newydd a diweddariadau ar waith CYSAGau, CCYSAGauC a chyrrff perthnasol eraill hefyd. Roedd pwyslais hefyd ar gymedroli gwaith marcio, rhannu arferion da a chydweithredu i ddatblygu adnoddau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

Anfonwyd manylion at CYSAG am sesiynau gweminar rhad ac am ddim a oedd yn cael eu cynnal ar 7 Gorffennaf 2020 gan y Gymdeithas Arolygwyr, Cynghorwyr ac Ymgynghorwyr Addysg Grefyddol (AREIAC). Gohiriwyd y Gynhadledd AREIAC ffisegol tan y flwyddyn nesaf o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

ADDOLI AR Y CYD

Mater

Sicrhau bod ysgolion yn bodloni gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac yn rhoi profiad gwerth chweil i ddisgyblion.

Cam Gweithredu

1. Mae CYSAG yn monitro adrannau adroddiadau arolygu sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (SMSC), ac mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd camau dilynol os bydd unrhyw achos o fethu â bodloni gofynion statudol drwy ofyn am eu cynllun gweithredu. Gwnaeth CYSAG fonitro tair ysgol yn ystod 2019 – 2020. Cafodd y ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd sylwadau cadarnhaol yn nodi bod ysgolion

yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda. Ni wnaeth Estyn unrhyw argymhellion ynghylch addoli ar y cyd yn yr adroddiad arolygu. Mae CYSAG wedi ysgrifennu at yr ysgolion er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad ynghylch addoli ar y cyd. Cyflwynwyd crynodeb o ganfyddiadau'r arolygiadau hyn i'r aelodau.

2. Mae CYSAG wedi hysbysu ysgolion am adnoddau a gwefannau priodol sy'n cefnogi addoli ar y cyd mewn ysgolion e.e. Diwrnod Cofio'r Holocaust 2020. Anfonodd CYSAG Caerffili ddogfen CCYSAGauC, sef *Cyngor i Ysgolion yng Nghymru yn ystod y Pandemig COVID-19*, at ysgolion yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol.
3. Penderfynodd CYSAG gynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn y Fwrdeistref ac arsylwi ar weithred addoli ar y cyd lle y bo modd er mwyn monitro'r broses o fodloni gofynion statudol, darpariaeth ac ansawdd addoli ar y cyd. Oherwydd bod cyfarfodydd wedi'u canslo yn ystod y pandemig COVID-19, nid oedd CYSAG yn gallu arsylwi ar addoli ar y cyd yn ystod y flwyddyn academiaidd hon.

MATERION ERAILL:

Nod: Sicrhau bod CYSAG yn cael mwy o wybodaeth drwy roi diweddariadau rheolaidd ar faterion lleol a chenedlaethol.

1. Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o CCYSAGauC ac mae'n cael adborth bob tymor o gyfarfodydd y Gymdeithas.
2. Mae Cynghorydd Addysg Grefyddol CYSAG yn aelod o PYCAG (y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol) ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ar ran CYSAG.
3. Mae aelodau CYSAG yn cael hyfforddiant rheolaidd i gael gwybod y diweddaraf am newidiadau deddfwriaethol ac addysgol ac i ddeall rôl a swyddogaeth CYSAGau.
4. Mae CYSAG yn ystyried Addysg yr Holocaust o ddifrif ac yn cynghori'r Awdurdod Lleol a'i ysgolion ar hyn.
5. Mae CYSAG wedi cael diweddariadau ar ddatblygu a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r goblygiadau i addysg grefyddol. Rhoddwyd diweddariadau trwy e-bost hefyd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Mae CYSAG wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm i Gymru. Ymgynghorodd aelodau CYSAG ar fersiwn ddrafft o'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
6. Byddai CYSAG, lle y bo'n bosibl, yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yng Nghaerffili er mwyn i'r aelodau ymgyswngtu ag Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Nid oedd modd cynnal cyfarfod mewn ysgol eleni oherwydd bod cyfarfodydd wedi cael eu canslo.

ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL

2.1 Y Maes Llafur Cytûn Lleol

Yn 2008, gwnaeth y Gynhadledd Sefydlog gymeradwyo a mabwysiadu maes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion yr Awdurdod i'w roi ar waith o fis Medi 2008. Mae cysylltiad agos rhwng y maes llafur cytûn a'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol. Cyflwynwyd deunydd cymorth, gan gynnwys cynlluniau gwaith a ffeiliau *Cynnydd wrth Ddysgu* electronig ar gyfer ysgolion uwchradd, i ysgolion.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2012/13, hysbyswyd CYSAG o'r cyhoeddiad gan y Gweinidog fod adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru ar fin cael ei gynnal. Yn ystod Tymor yr Haf 2013, cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog ailfabwysiadu'r maes llafur presennol gan gredu y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu unwaith y byddai canlyniadau'r adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, y trefniadau asesu a'r Cyfnod Sylfaen ar gael.

Ar 20 Mai 2019, cynhaliwyd Cynhadledd Sefydlog i adolygu Maes Llafur Cytûn Caerffili ar gyfer Addysg Grefyddol 2008. Yn y cyfarfod, cytunwyd i ailfabwysiadu'r Maes Llafur Cytûn presennol nes i'r cwricwlwm newydd gael ei roi ar waith yn 2022.

Anfonwyd copi o'r Maes Llafur Cytûn presennol at ysgolion. Hysbyswyd ysgolion y dylent barhau i ddilyn y maes llafur hwn nes iddynt glywed yn wahanol.

Mae CYSAG wedi cael diweddariadau gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygu'r fframwaith ategol i gefnogi Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng Nghwricwlwm i Gymru 2022. Rhoddodd CYSAG adborth ar ddrafft a fydd yn ategu Cwricwlwm i Gymru 2022 yn ystod Tymor yr Hydref. Mae CYSAG yn aros i ymgynghori ar y fframwaith cyn iddo gael ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Gobeithir y bydd CYSAG yn gallu mabwysiadu neu addasu'r ddogfen hon fel y maes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion Caerffili.

2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol

Mae CYSAG wedi mabwysiadu nifer o strategaethau ar gyfer monitro'r safonau a gyflawnir gan ysgolion yr Awdurdod mewn perthynas ag addysg grefyddol, gan gynnwys y canlynol.

Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Yn ystod cyfarfod CYSAG Tymor yr Hydref, craffodd yr awdurdod lleol a'i CYSAG ar adrannau perthnasol o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn o fis Mawrth 2019 i fis Gorffennaf 2019. Arolygwyd tair ysgol yng Nghaerffili, sef un ysgol gynradd, un ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig. Os bydd unrhyw faterion yn dod i'r amlwg o ran addysg grefyddol, fel methu â bodloni gofynion statudol, mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd camau dilynol drwy ofyn am eu cynllun gweithredu. Ni wnaeth Estyn unrhyw argymhellion ynglŷn â Datblygiad Ysbrydol, Addoli ar y Cyd nac Addysg Grefyddol yn yr ysgolion hyn. Roedd CYSAG yn falch iawn o nodi'r sylwadau cadarnhaol yn yr adroddiadau arolygu a gofynnodd i lythrau llongyfarch gael eu hanfon at y tair ysgol ar ran CYSAG. Roedd yr aelodau'n arbennig o falch o nodi bod Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod wedi cyflawni statws 'Rhagorol' ym mhob un o'i meysydd arolygu, ac roeddent o'r farn bod yr ysgol yn enghraifft o arfer gorau o ran darparu Addysg Grefyddol.

Anfonwyd llythyrau llongyfarch ar ran CYSAG at y tair ysgol yn dilyn canlyniadau eu harolygiadau Estyn.

Canlyniadau Arholiadau 2019

Yn y gorffennol, mae canlyniadau arholiadau TGAU a TAG UG/Safon Uwch a gyflawnwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd yn yr Awdurdod wedi cael eu dadansoddi a'u hystyried yn ystod cyfarfodydd CYSAG. Byddai dadansoddiad tair blynedd yn cael ei gynnal fel y gellid cymharu, ac amlygu tueddiadau. Dadansoddwyd niferoedd derbyn carfan hefyd, a chymharwyd hyn â ffigurau Consortia a Chymru gyfan (lle'r oeddent ar gael). Ni ddadansoddwyd data canlyniadau arholiadau 2019 am ddau reswm. Yn gyntaf, bu newid i'r canllawiau cenedlaethol ynglŷn â sut yr adroddir am ganlyniadau a sut y defnyddir data. Ar hyn o bryd, mae CCYSAGauC yn aros am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut y bydd unrhyw ddadansoddiad o ddata yn cael ei gasglu a'i adrodd wrth symud ymlaen. Yn ail, mae data fel arfer yn cael ei ddadansoddi yn ystod cyfarfod CYSAG Tymor y Gwanwyn. Canslwyd y cyfarfod hwn o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol yn ystod y pandemig COVID-19.

Rhoddodd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ddiweddariad i ysgolion ar y newidiadau i arholiadau TGAU a TAG Astudiaethau Crefyddol yn 2020. Mynegodd Cyngorydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer Addysg Grefyddol bryderon ynglŷn â'r arholiadau Astudiaethau Crefyddol, a rhannwyd ei safbwyntiau gyda CBAC trwy uwch arweinwyr yn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

Dosbarthodd CYSAG Caerffili holiadur gan Gymwysterau Cymru ar gymwysterau TGAU diwygiedig i'r holl ysgolion uwchradd.

Yn ystod 2020-2021, bydd CYSAG yn trafod ffyrdd y bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu rhoi gwybodaeth ystyrlon i CYSAG am ansawdd Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol yn CA4 yn ei ysgolion.

2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon

Dysgu Proffesiynol

Mae Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru yn hysbysebu ei gyrsiau drwy DPP ar-lein. Penododd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg Ms Paula Webber yn Gyngorydd Dysgu Proffesiynol amser llawn ar gyfer Addysg Grefyddol a CYSAG o fis Medi 2018. Cynigiodd Ms Webber gymorth wedi'i deilwra ar gyfer Addysg Grefyddol yn y rhanbarth yn ystod 2019-2020.

Roedd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi penodi dau arweinydd Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar gyfer Addysg Grefyddol yn ystod 2019-2020. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Rhwydwaith Dysgu ar gyfer Penaethiaid Adrannau Addysg Grefyddol uwchradd yn ystod y flwyddyn academiaidd. Roedd cyfarfodydd y rhwydwaith yn canolbwyntio ar wella safonau mewn TGAU Astudiaethau Crefyddol. Fodd bynnag, cafodd yr ymarferwyr a oedd yn bresennol hyfforddiant ar y cwricwlwm newydd a diweddariadau ar waith CYSAGau, CCYSAGauC a chyrrff perthnasol eraill hefyd. Roedd pwyslais hefyd ar gymedroli gwaith marcio, rhannu arferion da a chydweithredu i ddatblygu adnoddau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar gyfer Addysg Grefyddol

Yn ystod cyfarfod CYSAG Tymor yr Hydref, cyflwynodd y Cynghorydd Dysgu Proffesiynol ar gyfer Addysg Grefyddol a CYSAG adroddiad a amlygodd fanylion cyfarfodydd Addysg Grefyddol yr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar gyfer 2019-2020.

Dywedwyd wrth CYSAG bod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi buddsoddi mewn cynyddu capasiti ysgolion a lleoliadau addysgol yn y rhanbarth i alluogi dulliau mwy cydweithredol o weithio. Mae'r ymagwedd hon yn galluogi athrawon ac arweinwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd, ac mae sawl rhwydwaith ymarfer proffesiynol sydd wedi'u hen sefydlu ar draws y rhanbarth. Mireiniwyd yr ymagwedd yn ddiweddar trwy fuddsoddi mewn dull model clwstwr, a fydd yn galluogi ysgolion i gynyddu capasiti a pherchenogaeth ar y cyd am ddatblygu addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth effeithiol. Y model hwn fydd y prif sbardun i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei wireddu a bod dysgu proffesiynol yn cael ei ddarparu, a bydd yn cefnogi'r newidiadau cenedlaethol i atebolrwydd a hunanwerthuso.

Penodwyd Ysgol Gwynllyw (Torfaen) ac Ysgol Gyfun Basaleg (Casnewydd) yn ddwy ysgol arweiniol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer yr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu Addysg Grefyddol yn 2019-20. Gwnaethant ddarparu Dysgu Proffesiynol a chymorth i ysgolion uwchradd ledled y rhanbarth. Prif ffocws yr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar gyfer Addysg Grefyddol yn ystod 2019-2020 oedd TGAU Astudiaethau Crefyddol, a oedd hefyd yn cynnwys yr angen i godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 3. Dywedwyd wrth CYSAG bod sawl digwyddiad Ysgolion Rhwydwaith Dysgu wedi cael eu trefnu gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn ystod 2019-2020 ac y byddent yn cael eu cynnal gan y ddwy ysgol arweiniol. Dywedwyd wrth CYSAG bod lleoedd ar gyfer ymarferwyr a Phenaethiaid Adrannau wedi'u hysbysebu ac y gellid eu neilltuo trwy borth ar-lein Datblygiad Proffesiynol Parhaus y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

Yn ogystal â'r cymorth gan yr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu, mae'r Cynghorydd Dysgu Proffesiynol yn gallu cynnig cymorth i ysgolion cynradd ac uwchradd hefyd. Roedd Ms Webber wedi ysgrifennu at Gynghorwyr Herio'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i amlygu'r canfyddiadau a gafwyd o ddata crai canlyniadau TGAU ar gyfer 2019.

Yn ystod cyfarfod Tymor yr Hydref, ar ôl trafod manylion digwyddiadau'r Ysgolion Rhwydwaith Dysgu, trafododd yr Aelodau sut gallent godi proffil CYSAG a'r cymorth maen nhw'n ei gynnig i ysgolion. Nodwyd bod rhai CYSAGau yn hyrwyddo eu hunain trwy wefan eu hawdurdod lleol, ac awgrymodd Ms Webber y gallai'r opsiwn hwn gael ei archwilio ar gyfer CYSAG Caerffili. Mae cynrychiolwyr crefydd a chred CYSAG ar gael i ymweld ag ysgolion i gefnogi addysgu Addysg Grefyddol neu ddarparu addoli ar y cyd. Mae CYSAG Caerffili wedi ymrwmo i ddarparu cymorth effeithiol i ysgolion.

Roedd yr agenda ar gyfer sesiynau Dysgu Proffesiynol yr Ysgolion Rhwydwaith Dysgu a gynhaliwyd yn ystod 2019 – 2020 fel a ganlyn:

Sesiwn 1 (Gwynllyw): Dydd Mawrth 22 Hydref 2-4pm – Adolygiad TGAU (Unedau 1 a 2) –

- Adolygiad o bapurau arholiad TGAU 2017/18 Unedau 1 a 2 – maglau cyffredin/cwestiynau gwerthuso/yr hyn yr oedd disgyblion wedi'i wneud yn dda/yr hyn yr oedd disgyblion wedi'i wneud yn anghywir/Data Lefel Eitem.
- Rhannu adnoddau arfer da ar gyfer y fanyleb TGAU newydd – Uned ½
- DDPs – cyflwyniad gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.
- Diweddariad ar ddatblygu'r Cwricwlwm
- 'Edrych Tua'r Dyfodol' – deunyddiau Cymraeg a Saesneg i'w rhannu gyda phawb / rhannu syniadau ar gyfer adnoddau.

Sesiwn 2 (Gwynllyw): Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2-3pm – Adolygiad Safon Uwch (Unedau 2/4/5) –

- Adolygiad o bapurau arholiad UG/Safon Uwch 2017/18 Unedau 2/4/5 – maglau cyffredin/cwestiynau gwerthuso/yr hyn yr oedd disgyblion wedi'i wneud yn dda/yr hyn yr oedd disgyblion wedi'i wneud yn anghywir/Data Lefel Eitem.
- Rhannu adnoddau arfer da.
- Deunyddiau Cymraeg a Saesneg i'w rhannu gyda phawb / rhannu syniadau ar gyfer adnoddau.
- Cynlluniau gwaith.
- Defnyddio clipiau fideo.

Sesiwn 3 (Basaleg): Dydd Mawrth 4 Chwefror 2-4pm – Awgrymiadau, Argymhellion a Thechnegau Adolygu –

- Sut beth yw addysgu a dysgu da mewn Addysg Grefyddol?
- Rhannu adnoddau, deunyddiau ac arfer da – i'w darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Addysgeg.
- Sut mae delio â chynnwys trwm – Dysgu gwrthdro/asesu ar gyfer dysgu/dysgu wedi'i seilio ar sgiliau.
- Y Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r Fframwaith Addysg Grefyddol
- Rhannu arfer da – Awgrymiadau ac argymhellion adolygu.
- Rhannu adnoddau adolygu.

Canslwyd Sesiwn 4, y bwriadwyd ei chynnal ym mis Mawrth 2020, oherwydd y pandemig COVID-19.

Deunyddiau Addysgu

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu CYSAGau i ddarparu'r cyngor y byddent yn ei roi i ysgolion fel arfer. Fodd bynnag, cynigiwyd y cyngor canlynol:

Ysgoloriaethau Farmington

Darparodd CYSAG wybodaeth i ysgolion Caerffili am Ysgoloriaethau Farmington 2020 – 2021, sydd am ddim i athrawon Addysg Grefyddol yn y Deyrnas Unedig. Gall ymarferwyr astudio unrhyw agwedd ar Addysg Grefyddol a ddymunant, ond ffeirir ymgeiswyr sy'n gallu dangos bod eu gwaith o werth uniongyrchol i addysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Bydd yr Ysgoloriaeth yn talu am gost hyfforddiant, bwyd a llety lle y bo'n briodol, cludiant lleol hanfodol a, thrwy negodi â'r ysgol, cyflog athro cyflenwi/athrawes gyflenwi hyd at bwynt 6 ar y brif raddfa gyflog. Gall Ysgoloriaethau yn yr ysgol/gartref fod ar ffurf diwrnodau astudio, er enghraifft am un diwrnod yr wythnos dros dymor neu dros flwyddyn neu ar gyfer cyfnodau parhaus hyd at uchafswm o 30 diwrnod.

Gellir dilyn Ysgoloriaethau yn y brifysgol fel bloc hyd at wyth wythnos neu ar ffurf diwrnodau astudio hyd at 30 diwrnod. Mae rhagor o wybodaeth i ysgolion ar gael ar [wefan Sefydliad Farmington](#) neu drwy anfon e-bost at: farmington@hmc.ox.ac.uk

Adnoddau Newydd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2022

Dosbarthodd CYSAG Caerffili gyfres newydd o adnoddau Addysg Grefyddol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2022 i ysgolion cynradd. Mae'r adnoddau wedi cael eu cyhoeddi ar-lein ac maen nhw ar gael i'w lawrlwytho am ddim. Mae'r gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randolph a'i Chwiliad am Ystyr* ar gyfer dysgwyr 8-11 oed yn adnodd a noddir gan *Lywodraeth Cymru* a grëwyd i gefnogi dysgu mewn Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae'r gyfres yn adlewyrchu ymagwedd ryngddisgyblaethol, wedi'i seilio ar ymholi at Addysg Grefyddol, sydd wedi'i gosod yng nghyd-destun dysgu'r Dyniaethau. Mae natur hyblyg ac anrhagnodol y gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randolph a'i Chwiliad am Ystyr* yn golygu ei bod yn adnodd pontio delfrydol, gan ei bod yr un mor berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru presennol (2008) â'r Cwricwlwm i Gymru sydd ar ddod (2022).

Mae'r themâu a archwilir yn y gyfres yn cynnwys:

- Dod ag lechyd ac lachâd
- Gofalu am y Dyfodol
- Byw gyda Natur
- Mynd ar Deithiau Ysbrydol
- Cofio'r Gorffennol
- Gwasanaethu Eraill

Mae'r llyfrau stori, ffilmiau, cerddoriaeth a chanllaw i athrawon ar gael i'w lawrlwytho AM DDIM trwy'r dolenni canlynol ar gyfer gwefan Hwb Llywodraeth Cymru a gwefan Canolfan y Santes Fair, Cymru:

[Gwefan Hwb Llywodraeth Cymru](#)

[Gwefan Canolfan y Santes Fair, Cymru](#)

Bydd fersiwn newydd o'r Canllaw i Athrawon yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bydd fersiwn derfynol y canllawiau ar Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ar gael yn gynnar yn 2020. Mae'r Canllaw i Athrawon presennol yn dyfynnu o ddogfen ddrafft Llywodraeth Cymru, a disgwylir i'r iaith gael ei haddasu rywfaint.

Mae'r awduron yn gobeithio y bydd y gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randolph a'i Chwiliad am Ystyr* yn helpu i ysgogi llwybrau newydd ystyrlon a chyffrous mewn Addysg Grefyddol yng Nghymru, sy'n dechrau teithiau newydd wedi'u teilwra i gyd-destunau dysgu ysgolion unigol.

Digwyddiad Hyfforddi ar gyfer Athrawon Ysgolion Cynradd – Deall Dyneiddiaeth

Dosbarthodd CYSAG Caerffili wybodaeth i bob ysgol gynradd am ddigwyddiad hyfforddi ar gyfer athrawon ysgolion cynradd, a drefnwyd gan Ddyneiddwyr y DU, i'w gynnal yn Llundain ddydd Iau 26 Mawrth 2020, i roi cyfle iddynt ddatblygu eu dysgu proffesiynol. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar [wefan Dyneiddwyr y DU](#).

Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys:

- Pwy yw'r anghrefyddol a beth yw byd-olwg anghrefyddol?
- Beth yw dyneiddiaeth? Beth mae angen i fyfyrwyr ei wybod?
- Beth yw'r ffordd orau i mi addysgu am ddyneiddiaeth yn yr ystafell ddosbarth?

Trwy rannu dyneiddiaeth yn bum bloc craidd o wybodaeth, ceisiodd y cwrs helpu ymarferwyr i addysgu am y byd-olwg dyneiddiol mewn ffordd ragorol a chywir, ac awgrymu a modelu adnoddau a gweithgareddau a fyddai'n cefnogi dysgu.

Mae Deall Dyneiddiaeth yn cynnig cyrsiau ar-lein ar eu gwefan.

Bwletin Newyddion Addysg Grefyddol CYSAG

Fel arfer, mae'r Cynghorydd i CYSAG yn llunio Bwletin Newyddion Addysg Grefyddol CYSAG i'w rannu ag ysgolion. O ganlyniad i ystyriaethau cyfieithu, absenoldeb tymor hir staff ac effaith y pandemig COVID-19, ni rannwyd bwletinau ag ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020. Yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021, bydd y Cynghorydd Dysgu Proffesiynol yn archwilio ffyrdd effeithlon o gyfleu gwybodaeth bwysig i athrawon Addysg Grefyddol, gan gynnwys fformat rhestr chwarae lle y gellir cael at wybodaeth gyfredol unrhyw bryd. Yng nghyfarfod Tymor yr Hydref 2019, awgrymodd aelodau CYSAG y gallai presenoldeb ar-lein fod yn ddefnyddiol hefyd. Gellir archwilio hyn ymhellach.

Mae rhestr o **adnoddau rhad ac am ddim** i ysgolion ar gael ar gais. Mae hyn yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer gwefannau defnyddiol yn ogystal â gwybodaeth am **ymweliadau ac ymwelwyr** â de Cymru a ddosbarthwyd i ysgolion.

ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD

3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Yn ystod cyfarfod CYSAG yn Nhymor yr Hydref, craffodd yr awdurdod lleol a'i CYSAG ar adrannau perthnasol o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn ar gyfer mis Mawrth 2019 a mis Gorffennaf 2019. Arolygwyd un ysgol gynradd, un ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig yng Nghaerffili yn ystod y cyfnod hwnnw. Os bydd unrhyw faterion yn dod i'r amlwg o ran addoli ar y cyd, fel methu â bodloni gofynion statudol, mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd camau dilynol drwy ofyn am eu cynllun gweithredu. Nododd CYSAG fod y tair ysgol a arolygwyd yn bodloni'r gofynion statudol o ran addoli ar y cyd. Cyfeiriwyd at ansawdd addoli ar y cyd mewn dau adroddiad arolygu a thynnwyd sylw at nodweddion da. Ni wnaeth Estyn unrhyw argymhellion ynglŷn â Datblygiad Ysbrydol, Addoli ar y Cyd nac Addysg Grefyddol.

Gwnaed sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd, gan nodi bod ysgolion yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae sylwadau ynghylch datblygiad ysbrydol yn amlwg yn yr adroddiadau arolygu. Hysbyswyd CYSAG bod PYCAG a CCYSAGauC wedi bod mewn cysylltiad ag Estyn ac, yn y dyfodol, dylai pob adroddiad arolygu gyfeirio at ddatblygiad ysbrydol.

Mae dau adroddiad arolygu yn cyfeirio at ansawdd addoli ar y cyd a thynnir sylw at nodweddion da. Mae gweithredoedd addoli ar y cyd:

- yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion
- yn dathlu cyflawniadau a llwyddiannau disgyblion
- yn galluogi disgyblion i wneud defnydd effeithiol o'r wal fyfyrto i ymateb i negeseuon moesol allweddol
- yn canolbwyntio ar hawliau'r plentyn, gan ganiatáu i lawer o ddisgyblion drafod gwerthoedd pwysig yn dda

Mae CYSAG wedi penderfynu parhau i ddefnyddio adroddiadau arolygu i fonitro'r broses o fodloni gofynion statudol ac i ddefnyddio pa sylwadau bynnag sy'n gymwys.

Cyngor ar Addoli ar y Cyd yn ystod y Pandemig COVID-19

Yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, gofynnodd rhai ysgolion yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru am gymorth gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar addoli ar y cyd gan fod ysgolion ar gau a bod dysgu'n digwydd yn ddigidol. Ffuriodd Cynghorydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i CYSAG weithgor gyda chydweithwyr yn CCYSAGauC. Lluniwyd dogfen ganllaw, sef 'Cyngor i Ysgolion Cymru ar Addoli ar y Cyd yn ystod y Pandemig COVID-19'. Dosbarthodd CYSAG Caerffili y ddogfen hon i bob ysgol yn y fwrdeistref. Mae hefyd ar gael ar wefan CCYSAGauC. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cymorth ymarferol gyda phlatfformau digidol. Mae hefyd yn canolbwyntio'n gryf ar sut gallai addoli ar y cyd helpu dysgwyr a'u teuluoedd yn ystod yr adeg anodd hon.

3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau

Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion am benderfyniadau o ran diddymu'r gofynion i sicrhau bod gweithredoedd addoli ar y cyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf Gristnogol eu natur.

3.3 Ymweliadau ag Ysgolion

Mae CYSAG yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir i'r aelodau arsylwi ar weithredoedd addoli ar y cyd mewn ysgolion. Ni chafodd yr aelodau gyfle i gynnal cyfarfod CYSAG mewn ysgol eleni o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

ADRAN 4: MATERION ERAILL

4.1 CCYSAGauC

Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o CCYSAGauC ac mae cynrychiolwyr wedi mynychu cyfarfodydd y Gymdeithas. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2019-20, cyflwynwyd adroddiadau llawn i CYSAG ar y materion a ystyriwyd yng nghyfarfodydd CCYSAGauC a chynhaliwyd trafodaethau llawn. Mae CYSAG yn croesawu'r gwaith rhagweithiol a wneir gan Gymdeithas CCYSAGauC i fynd i'r afael â materion sydd â goblygiadau i Addysg Grefyddol a sicrhau bod y CYSAGau sy'n aelodau o'r Gymdeithas yn cael eu hysbysu'n llawn. Mae cynghorydd proffesiynol CYSAG, Ms Paula Webber, a oedd yn dal swydd ar y Pwyllgor Gweithredol, yn cynrychioli CYSAG ar Bwyllgor Gweithredol CCYSAGauC. Mae CYSAG Caerffili wedi cael adborth rheolaidd gan Ms Webber a'r rhai sy'n cynrychioli CYSAG yng nghyfarfodydd CCYSAGauC. Canslwyd cyfarfodydd CCYSAGauC yn nhymor y gwanwyn a thymor yr haf oherwydd y pandemig COVID-19. Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol CCYSAGauC yn cael ei gynnal yn rhithwir yn gynnar yn Nhymor yr Hydref 2020.

Rhodddwyd diweddariad i aelodau CYSAG Caerffili ar drafodaethau a gynhaliwyd rhwng CCYSAGauC a Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod Tymor yr Hydref CCYSAGauC. Cyfarfu Swyddogion CCYSAGauC â chynrychiolydd Llywodraeth Cymru, sef Dr Kevin Palmer, i drafod y cymorth dysgu proffesiynol sy'n angenrheidiol mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a'r cwricwlwm newydd. Mae cyllid wedi'i gytuno bellach ar gyfer cyfres o adnoddau sy'n benodol i Addysg Grefyddol, yn ogystal â hyfforddiant i bawb sy'n ymwneud ag addysgu Addysg Grefyddol a hyfforddi myfyrwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Cydnabuwyd yr angen am hyfforddiant penodol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir hefyd.

Anfonodd CCYSAGauC neges e-bost at CYSAG ar 27 Ebrill 2020 yn gofyn i'r Aelodau gyflwyno enwebiadau i Bwyllgor Gweithredol CCYSAGauC. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau gan CYSAG Caerffili, a rhodddwyd gwybod i CCYSAGauC yn unol â hynny.

Anfonodd CCYSAGauC y rhestr o enwebiadau at CYSAG ar 24 Medi 2020, a gofynnodd iddynt gyflwyno eu pleidleisiau unigol trwy e-bost at y Cadeirydd a'r Cynghorydd Addysg Grefyddol. Cynhaliodd CYSAG y broses bleidleisio trwy e-bost o ganlyniad i'r anawsterau a achoswyd gan y cyfyngiadau symud oherwydd COVID-19. Cyfrwyd y pleidleisiau a chyflwynwyd dewis CYSAG i Gadeirydd CCYSAGauC ar 2 Hydref 2020. Dewisodd CYSAG Caerffili Dr Louise Brown (Is-gadeirydd) gyda John Meredith a Tania ap Sion ar y Pwyllgor Gweithredol. Dosbarthwyd canlyniad Etholiadau Gweithredol CCYSAGauC ar 7 Hydref 2020 i Aelodau CYSAG hefyd.

4.2 ADDYSG AM YR HOLOCOST

Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocaust 2020

Anfonodd CYSAG lythyr at bob ysgol i roi gwybod iddynt am Ddiwrnod Cofio'r Holocaust 2020, gan ddweud bod Diwrnod Cofio'r Holocaust yn cael ei gynnal ar 27 Ionawr bob blwyddyn a'i fod yn adeg i gofio'r miliynau o bobl a lofruddiwyd yn ystod yr Holocaust, o

dan erledigaeth y Natsïaid ac yn yr hil-laddiadau dilynol yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur. Atgoffwyd ysgolion bod Diwrnod Cofio'r Holocost yn adeg i ddysgu gwersi'r gorffennol a chydabod nad yw hil-laddiad yn digwydd ar ei ben ei hun – proses raddol ydyw sy'n gallu dechrau os nad yw gwahaniaethu, hiliaeth a chasineb yn cael eu hatal.

Mae Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost yn cynhyrchu deunyddiau sy'n benodol i thema Diwrnod Cofio'r Holocost. Y thema ar gyfer 2020 oedd **“Sefyll Gyda'n Gilydd”** ac roedd yn archwilio sut mae cyfundrefnau hil-laddol ar hyd hanes wedi hollti cymdeithas yn fwriadol trwy wthio grwpiau penodol i'r ymylon, a sut gellir herio'r tactegau hyn wrth i unigolion sefyll gyda'u cymdogion a siarad yn erbyn gormes.

Mae Diwrnod Cofio'r Holocost 2020 yn nodi 75 mlynedd ers rhyddhau Auschwitz, sy'n garreg filltir arwyddocaol ac yn arbennig o ingol oherwydd bod nifer y goroeswyr sy'n gallu rhannu eu tystiolaeth yn lleihau. Mae hefyd yn nodi 25 mlynedd ers yr hil-laddiad ym Mosnia.

Hysbysodd CYSAG ysgolion fod rhagor o wybodaeth am y thema ac adnoddau addysgol rhad ac am ddim ar yr Holocost ar gael ar [wefan Diwrnod Cofio'r Holocost](#) - gan gynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaethau a thafenni gwaith sy'n addas ar gyfer disgyblion cynradd hyd at fyfyrwyr ôl-16.

4.3 Y CWRICWLWM I GYMRU 2022

Ym mis Gorffennaf 2019, gweithiodd CYSAG Caerffili ar y cyd â CYSAGau eraill ledled rhanbarth De-ddwyrain Cymru i roi adborth i'r ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft y Cwricwlwm i Gymru 2022. Dywedwyd wrth aelodau CYSAG bod arloeswyr cwricwlwm yn ystyried yr adborth a gafwyd gan y cyhoedd ac y byddent yn gwneud diwygiadau priodol i'r cwricwlwm. Yn ystod cyfarfod CYSAG yn Nhymor yr Hydref 2019, cyflwynodd Ms Webber adroddiad a roddodd ddiweddariad i CYSAG ar ddatblygiad y Cwricwlwm i Gymru 2022 mewn perthynas ag Addysg Grefyddol. Gofynnodd yr adroddiad hefyd i CYSAG ystyried ymgynghoriad diweddaraaf Llywodraeth Cymru, sef *Sicrhau Mynediad i'r Cwricwlwm Llawn*, ar yr hawl i dynnu'n ôl o Addysg Grefyddol a chynnig i newid enw Addysg Grefyddol.

Ymatebodd CYSAG i ymgynghoriad *Sicrhau Mynediad i'r Cwricwlwm Llawn* Llywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau, sef 28 Tachwedd 2019. Amlinellir y pwyntiau trafod allweddol o CYSAG Caerffili isod:

Cynnig i ddileu hawl rhieni i dynnu'n ôl o Addysg Grefyddol

Dywedwyd wrth CYSAG bod Llywodraeth Cymru yn rhagweld system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at gwricwlwm eang a chytbwys ac yn gwneud cynnydd tuag at y “4 Diben” a argymhellir yn Adolygiad Donaldson. Yn rhan o sicrhau mynediad cyfartal, cynigiodd Llywodraeth Cymru na fyddai rhieni'n cael yr hawl i dynnu'n ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o dan y cwricwlwm newydd. Mae cylch gorchwyl CYSAG yn ymwneud ag Addysg Grefyddol yn unig, a phenderfynodd CYSAG Caerffili y byddai'n gwneud sylwadau ar Addysg Grefyddol yn unig yn yr ymgynghoriad, ac y byddai wedi bod yn well cynnal ymgynghoriadau ar wahân ar y ddau bwnc er mwyn osgoi dryswch ac o ystyried cymhlethdod y materion sy'n ymwneud â thynnu'n ôl.

Rhoddyd diweddariad i CYSAG ar y newidiadau arwyddocaol mewn cymdeithas ac yn y gyfraith ers i'r cwricwlwm presennol gael ei gyflwyno, ynghyd â chymhlethdod

cynyddol y byd a'r angen i sicrhau bod disgyblion yn meddu ar sgiliau i ymdopi â'r byd modern trwy ddarparu byd-olygon crefyddol ac anghrefyddol gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan y wladwriaeth rwymedigaeth foesol i sicrhau bod plant mewn ysgolion yn cael gwybodaeth niwtral a chywir am y materion hyn sy'n treiddio trwy gymdeithas, ac y byddai peidio â chynnwys yr hawl i dynnu'n ôl hefyd yn cefnogi'r ymagwedd ryngddisgyblaethol sy'n cael ei mabwysiadu yn y cwricwlwm newydd.

Ystyriodd CYSAGau safbwynt Llywodraeth Cymru, sef y dylid galluogi plant a phobl ifanc i lywio gwybodaeth a thwyllwybodaeth yn ddiogel a ffurfio barn wybodus, ac felly y dylid sicrhau bod yr holl ddysgwyr mewn ysgolion yn cael mynediad at Addysg Grefyddol a'r hawl i gael addysg gyson, ffeithiol sy'n briodol i'w cam datblygu am y materion dan sylw. Mae hyn yn bwysig er mwyn datblygu cymdeithas fwy cynhwysol a goddefgar. Dywedwyd wrth CYSAG bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn awgrymu y byddai anawsterau ymarferol yn gysylltiedig â gweithredu tynnu'n ôl yn y cwricwlwm hwn sy'n fwy integredig o lawer. Byddai'r pwyslais ar ymgysylltu â chymunedau a chydabod ac ymateb i gefndir dysgwyr wrth drafod y pynciau hyn yn darparu mesurau diogelu priodol i rieni, heb fod angen tynnu'n ôl. Argymhellodd Llywodraeth Cymru fod peidio â chynnwys yr hawl i dynnu'n ôl yn bodloni'r amcanion polisi orau, sef caniatáu i'r holl ddysgwyr gael at gwricwlwm sy'n eu galluogi i wneud cynnydd o ran y Pedwar Diben, i'r system addysg gyfrannu at greu cymdeithas fwy cynhwysol a goddefgar a chynyddu ei chyfraniad at nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r eithaf, i gydnabod rôl rhieni a theuluoedd wrth roi arweiniad i blant mewn perthynas â'r materion hyn, i gydnabod ac ymateb i fuddiannau pob grŵp a hyrwyddo cydraddoldeb, a pheidio â chynyddu'r baich ar ysgolion na llwyth gwaith athrawon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio nad yw hyn yn golygu y bydd y cynnig hwn yn disodli rôl allweddol rhieni wrth addysgu eu plant. Bydd yr addysg a roddir i blant a phobl ifanc trwy Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ac Addysg Grefyddol mewn ysgolion a gynhelir yn cael ei darparu mewn ffordd sensitif a chynhwysol i'w hategu. Bydd y canllawiau ar gyfer Addysg Grefyddol yn egluro bod rhaid i'r wybodaeth yr ymdrinnir â hi gael ei chyfleu mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol.

Yn ystod cyfarfod Tymor yr Hydref, trafododd CYSAG y cynnig a mynegodd gefnogaeth i'r weledigaeth o system addysg gynhwysol, yr ymagwedd integredig ac ehangu'r cwricwlwm. Cytunodd y bydd Addysg Grefyddol i'r holl ddysgwyr yn caniatáu ar gyfer ymagwedd fwy cyfannol ac yn rhoi cyfle gwell iddynt gyflawni'r 4 Diben. Holodd CYSAG p'un a fyddai rhieni'n cael apelio yn erbyn dileu'r hawl i dynnu'n ôl ac a allai hyn gyflwyno heriau cyfreithiol yn Llys Hawliau Dynol Ewrop ac, os felly, pwy fyddai'n gyfrifol am ddelio â heriau o'r fath.

Roedd CYSAG o'r farn bod angen rhoi dulliau ar waith i ddiogelu ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru rhag heriau cyfreithiol. Gallai hyn gynnwys pecyn Dysgu Proffesiynol helaeth i bawb sy'n gyfrifol am Addysg Grefyddol, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynnal trafodaethau â dysgwyr a rhieni. Pwysleisiwyd yr angen i leihau'r baich ar ysgolion i'r eithaf ac i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau a hyfforddiant i benaethiaid ar reoli sefyllfaoedd lle y byddai dysgwyr yn cael eu tynnu'n ôl fel arfer. Awgrymwyd hefyd os bydd y cynnig i ddileu'r hawl i dynnu'n ôl yn cael ei weithredu, y bydd angen i Lywodraeth Cymru gynghori ysgolion ar sut i reoli unrhyw achosion presennol o dynnu'n ôl.

Rhannodd CYSAG i'w dri grŵp pwyllgor unigol i bleidleisio ar y cynnig ac, ar ôl trafod, cytunodd yn unfrydol â'r cynnig i ddileu hawl rhieni i dynnu'n ôl o wersi Addysg Grefyddol, ac y dylai'r farn hon gael ei chyfleu i Lywodraeth Cymru.

Cynnig i newid enw Addysg Grefyddol

Rhoddwyd trosolwg o'r cynnig hwn i CYSAG, sef bod Llywodraeth Cymru yn credu y dylai enw'r pwnc adlewyrchu'r hyn a addysgir i ddysgwyr trwy Addysg Grefyddol, a'i bod felly'n cynnig newid yr enw Addysg Grefyddol i "Crefyddau a Byd-olygon". Awgrymodd Llywodraeth Cymru y byddai'r newid hwn i'r enw yn adlewyrchu arferion addysgu'n briodol yn y cwricwlwm newydd ac yn caniatáu ar gyfer archwilio pob cred grefyddol ac athronyddol, yn ogystal â chredoau a byd-olygon eraill, gan gynnwys byd-olygon anghrefyddol.

Trafododd CYSAG y cynnig ac roedd o'r farn bod cyfeirio at grefydd yn y ffurf luosog yn adlewyrchu camdybiaeth ynglŷn â natur crefyddau fel endidau ar wahân ac yn arwain at y cwestiwn 'pa grefyddau y dylwn ni eu haddysgu?', a allai achosi ymraniad ac eithrio a goblygiadau i gydlyniant cymunedol, o bosibl. Argymhellodd fwyafrif aelodau CYSAG y byddai "Crefydd a Byd-olygon" yn enw mwy priodol a fyddai'n caniatáu ar gyfer cynnwys pob crefydd ac yn adlewyrchu Addysg Grefyddol wrthrychol, feirniadol a phluraliaethol. Dyma'r enw a gynigiwyd gan y grŵp o gomisiynwyr arbenigol a weithiodd ar Adroddiad Terfynol y Comisiwn ar Addysg Grefyddol yn Lloegr. Mynegodd un aelod o CYSAG farn arall, sef y byddai'r term 'Crefyddau a Byd-olygon' yn ymdrin â phob crefydd/grŵp anghrefyddol yn ddigonol.

Gofynnwyd i CYSAG hefyd nodi bod enw amgen wedi cael ei awgrymu gan Lywodraeth Cymru, sef "Crefyddau, Gwerthoedd a Moeseg". Fel yr amlinellir yn y Pedwar Diben, mae pob pwnc yn y cwricwlwm yn gyfrifol am alluogi dysgwyr i ddatblygu gwerthoedd a moeseg, ac nid athrawon Addysg Grefyddol yn unig y disgwylir iddynt gyflawni'r rôl hon. Mae Addysg Grefyddol yn derm ambarél ar gyfer sawl disgyblaeth wahanol, ac mae bob amser wedi bod yn faes dysgu amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol. Dwy yn unig o agweddau niferus Addysg Grefyddol yw gwerthoedd a moeseg, a gallai ei henwi'n Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg leihau'r pwnc. Mae perygl hefyd y gallai hyn olygu nad yw byd-olygon anghrefyddol yn cael eu cynnwys, sef un o nodau clir y cynnig, yn ôl pob golwg. Ar ôl trafod y cynnig, cytunodd CYSAG Caerffili y dylai'r enw "Crefydd a Byd-olygon" gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel y dewis a ffefrir ganddo ar gyfer newid enw Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd.

Paratôdd Ms Webber ymateb drafft i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar y trafodaethau, a anfonwyd at aelodau CYSAG Caerffili ar gyfer sylwadau a chymeradwyaeth derfynol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 28 Tachwedd 2019.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Yn rhan o'r diwygiadau ehangach yn y Cwricwlwm i Gymru, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar wneud newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar gyfraith achosion bresennol, yn bwriadu mynnu bod rhaid i'r modd yr addysgir Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fod yn blwraliaethol ei natur. Mae'r newidiadau hyn yn nodi'n benodol yr hyn sydd eisoes yn ofynnol o dan y gyfraith – addysgu Addysg Grefyddol yn blwraliaethol yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud darpariaeth newydd sy'n mynnu bod yr awdurdod lleol, CYSAG a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytûn yn ystyried canllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru ynglŷn â'r cwricwlwm wrth ddatblygu a mabwysiadu maes llafur cytûn. Amlinellodd yr ymgynghoriad hefyd y newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â gwahanol fathau o ysgolion yng Nghymru a sut y dylent ddefnyddio'r meysydd llafur cytûn lleol yn nhrefniadau'r cwricwlwm newydd. Yn y ddogfen ymgynghori, datganodd Llywodraeth Cymru *"Bydd angen i ysgolion barhau i fodloni eu hunain fod eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn bodloni'r*

gofyniad plwraliaethol a grëwyd gan ddeddfwriaeth hawliau dynol, a bydd angen i CYSAGau, Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ac Awdurdodau Lleol barhau i sicrhau bod unrhyw faes llafur cytunedig y byddant yn ei ddatblygu a'i fabwysiadu hefyd yn bodloni'r gofynion hyn."

Hysbyswyd CYSAG am yr ymgynghoriad ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm newydd i Gymru 2022 trwy neges e-bost ar 15 Mai 2020. Ymgynghorwyd ag aelodau CYSAG trwy e-bost oherwydd y pandemig COVID-19. Anfonwyd ymateb drafft cychwynnol at CYSAG ar gyfer sylwadau ar 6 Gorffennaf 2020. Anfonwyd ymateb drafft arall at CYSAG ar gyfer sylwadau ar 21 Gorffennaf 2020 ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a chyflwynwyd yr ymateb terfynol i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 27 Gorffennaf, ar ran y Cadeirydd. Anfonwyd copi terfynol o'r ymateb at CYSAG er gwybodaeth.

Ymgynghoriad Senedd Cymru ar Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Hysbyswyd CYSAG am Ymgynghoriad Senedd Cymru ar Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) trwy e-bost ar 18 Awst 2020. Roedd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Anfonwyd y dogfennau ymgynghori at aelodau CYSAG a bwriadwyd trafod y mater yn ystod Tymor yr Hydref 2020. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad yw 29 Medi 2020.

Y Fframwaith ar gyfer Addysg Grefyddol

Yn ystod Tymor yr Hydref, dywedwyd wrth aelodau CYSAG bod gwaith y Grŵp Fframwaith Addysg Grefyddol yn parhau, a bod Paula Webber (Cynghorydd Dysgu Proffesiynol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer Addysg Grefyddol a CYSAG) a Libby Jones (Cynghorydd Addysg Grefyddol Wrecsam) yn arwain ei ddatblygiad o hyd. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y fframwaith yn rhoi mwy o fanylion am y berthynas rhwng Addysg Grefyddol, y Maes Llafur Cytûn, a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Fframwaith Addysg Grefyddol ar ffurf ddrafft ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ionawr 2020 i gyd-fynd â chyhoeddi fersiwn derfynol y Cwricwlwm i Gymru 2022. Roedd angen gwneud newidiadau i'r Fframwaith Addysg Grefyddol ar ôl i'r Cwricwlwm gael ei ailddrafftio.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â CYSAGau ar y fframwaith ategol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ystod mis Ionawr 2020. Dosbarthwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad ac adborth CCYSAGauC i CYSAG. Anfonodd CYSAG Caerffili ymateb i'r ymgynghoriad at Lywodraeth Cymru ar 13 Ionawr 2020. Anfonodd CCYSAGauC ddiweddariadau at CYSAG ar 24 a 26 Mawrth 2020 ynglŷn â safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Fframwaith Ategol, a dywedwyd wrtho fod yr ymgynghoriad hwn wedi cael ei oedi o ganlyniad i COVID-19.

Ymgynghoriad ar Adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon

Anfonwyd ymgynghoriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon at CYSAG Caerffili ar 15 Medi 2020 fel ymgynghoreion statudol. Gwahoddwyd yr aelodau i ymateb fel unigolion.

4.4 HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU CYSAG

Mae aelodau CYSAG yn cael hyfforddiant ar Rolau a Chyfrifoldebau CYSAG ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd.

Fel rhan o'r broses hon, cafodd aelodau CYSAG yr hyfforddiant canlynol:

- Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd drwy gyflwyniadau rheolaidd i aelodau CYSAG. Rhoddodd Ms. P. Webber y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o bwys yn ymwneud â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru 2022 a'i oblygiadau i Addysg Grefyddol.
- Os oes modd, mae CYSAG yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn y Fwrdeistref er mwyn i'r aelodau ymgyswngtu ag Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Nid oedd hyn yn bosibl yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020 oherwydd effaith y pandemig COVID-19.

Mae CYSAG yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir drwy ymweliadau a chyflwyniadau i ddod yn fwy hyddysg am faterion Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion yn fawr a hoffai ddiolch i bawb dan sylw. Hoffai ddiolch yn arbennig i Glerc CYSAG (Rebecca Barrett) am ei holl waith caled yn gwneud trefniadau o'r fath eleni.

4.5 AELODAETH CYSAG

Mae'r rhestr aelodaeth bresennol sy'n dangos y sefyllfa ym mis Medi 2020 wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

Yn ei gyfarfod yn Nhymor yr Hydref, rhoddwyd diweddariad ar aelodaeth CYSAG.

Lleoedd Cyfetholedig – Atgoffwyd yr aelodau eu bod wedi cytuno'n flaenorol i archwilio cyfethol cynrychiolwyr pobl ifanc i'r Pwyllgor. Yn deillio o hyn, esboniodd y Cynghorydd John Taylor (Cadeirydd CYSAG) ei fod wedi mynychu Cabinet Ieuenctid y Cyngor yn ddiweddar i sôn am waith CYSAG a chasglu mynegiadau cychwynnol o ddiddordeb gan y bobl ifanc a oedd yn bresennol. Croesawodd y Cabinet Ieuenctid y cyfle i gymryd rhan yn CYSAG trwy gyfethol ac, wrth symud ymlaen, byddant yn rhoi gwybod i'r aelodau sy'n astudio Addysg Grefyddol ar lefel TGAU neu Safon Uwch am y lleoedd cyfetholedig er mwyn ceisio mynegiadau o ddiddordeb a rhoi enwebiadau i CYSAG. Yn anffodus, o ganlyniad i'r sefyllfa yn ymwneud â'r pandemig COVID-19, nid oedd CYSAG Caerffili wedi gallu cyfethol pobl ifanc i'r pwyllgor yn ystod 2019-2020.

Pwyllgor A – Penodwyd Mr Michael Gray (Eglwys y Methodistiaid) ym mis Mehefin 2019 i lenwi'r swydd wag Eglwys Rydd, penodwyd yr Uwchgaptin Paula Hubbard ym mis Mehefin 2019 i lenwi swydd wag Byddin yr Iachawdwriaeth, a phenodwyd Mr Ken Chamberlain (Dyneiddwyr Cymru) ym mis Awst 2019 i lenwi'r swydd wag grŵp anghrefyddol. Mae gwaith yn parhau i lenwi'r swydd wag sy'n weddill ar gyfer cynrychiolydd ffydd anghristnogol. Gwahoddwyd yr aelodau newydd i fynychu cyfarfod Tymor yr Hydref yn 2019.

Pwyllgor B – Yng nghyfarfod Tymor yr Hydref CYSAG, nododd yr aelodau y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda'r undebau perthnasol i lenwi'r pedair swydd wag ar gyfer cynrychiolwyr athrawon. Llenwodd CYSAG Caerffili ddwy o'r swyddi gwag hyn ym mis Chwefror 2020. Cymerodd Ms Katherine McCullough (NASUWT) le Mrs Laura Strange, a llenwodd Mrs Claire McLaughlan ail swydd wag yr NASUWT.

Pwyllgor C – Cymerodd y Cynghorydd A. Collis le'r Cynghorydd J. Ridgewell ar CYSAG ym mis Medi 2020.

Aelodau Cyfetholedig – Mae CYSAG Caerffili yn parhau i weithio gyda'r Fforwm Ieuenctid i gyfethol pobl ifanc i CYSAG.

Swyddogion CYSAG

Parhaodd Mr P. Warren i weithredu fel Swyddog yr Awdurdod Lleol ac mae Ms. P. Webber, sef Cyngorydd Addysg Grefyddol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i CYSAG, yn parhau i roi cymorth Dysgu Proffesiynol i CYSAG Caerffili yn rhanbarth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae aelodau CYSAG yn ddiolchgar i Miss R. Barrett, sy'n parhau i weithredu fel Clerc CYSAG. Mae gwaith Miss Barrett yn hollbwysig i sicrhau bod CYSAG Caerffili yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Anfonwyd llythyrau croeso ar ran CYSAG at gynrychiolwyr newydd CYSAG yn ystod 2019-2020.

ATODIAD 1: Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM AELODAETH CYSAG CAERFFILI 2019/2020

ENWADAU CRISTNOGOL AC ENWADAU CREFYDDOL ERAILL – PWYLLGOR A

Mr Martyn Western (Archesgobaeth Gatholig)
Mrs Enfys Hawthorn (Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig)
Mrs Janet Jones (Yr Eglwys yng Nghymru) (Is-gadeirydd CYSAG)
Yr Uwchgapten Paula Hubbard (Byddin yr Iachawdwriaeth)
Mr Michael Gray (Eglwys y Methodistiaid)
Mr Ken Chamberlain (Dyneiddwyr Cymru)

Swydd wag – grŵp ffydd crefydd anghristnogol

CYMDEITHASAU ATHRAWON – PWYLLGOR B

Ysgolion Cynradd

Mrs Tara Lloyd (NAHT)
Ms Meinir Jones (UCAC)

Ysgolion Uwchradd

Miss Helen Bartley (ATL)
Ms Katherine McCullough (NASUWT) – penodwyd ym mis Chwefror 2020 – cymerodd
le Mrs Laura Strange
Mrs Claire McLaughlan (NASUWT) – penodwyd ym mis Chwefror 2020 – llenwodd ail
swydd wag NASUWT

Swydd wag – Cynrychiolydd NUT
Swydd wag – Cynrychiolydd ASCL

YR AWDURDOD LLEOL – PWYLLGOR C

Y Cynghorydd Mrs E.M. Aldworth
Y Cynghorydd A. Collis – a gymerodd le'r Cynghorydd J. Ridgewell ar CYSAG ym mis
Medi 2020
Y Cynghorydd Mrs G.D. Oliver
Y Cynghorydd Mrs T. Parry
Y Cynghorydd J. Simmonds
Y Cynghorydd J. Taylor (Cadeirydd CYSAG)

AELODAU CYFETHOLEDIG

Dwy swydd wag – ar gyfer cynrychiolwyr pobl ifanc ar CYSAG

SWYDDOGION

Mr Paul Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwellu Ysgolion Cyngor Bwrdeistref
Sirol Caerffili)
Ms Paula Webber (Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Cynghorydd Addysg Grefyddol
CYSAG Caerffili)

CLERC CYSAG

Miss Rebecca Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)
E-bost: barrerm@caerffili.gov.uk

ATODIAD 2: RHESTR O'R CYFARFODYDD A'R AGENDÂU

23 Hydref 2019, 2.00pm yn Nhŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach

Prif Eitemau'r Agenda

- Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mercher, 6 Mawrth 2019 a materion yn codi
- Aelodaeth CYSAG
- Adroddiad Blynnyddol CYSAG
- Diweddariad ar ddatblygu'r cwricwlwm ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddileu'r hawl i dynnu'n ôl o Addysg Grefyddol a newid enw Addysg Grefyddol
- Monitro Darpariaeth a Safonau – Adroddiadau Arolygu Ysgolion Caerffili
- Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar gyfer Addysg Grefyddol
- Diwrnod Cofio'r Holocaust 2020
- Bwletin Newyddion CYSAG
- Busnes CCYSAGauC
- Dyddiadau cyfarfodydd CCYSAGauC yn y dyfodol a chadarnhau cynrychiolaeth – yr Hydref – Ceredigion (21 Tachwedd 2019 yn Siambrau'r Cyngor, Aberaeron). Y Gwanwyn – Merthyr Tydfil, i'w gadarnhau. Yr Haf – Gwynedd, i'w gadarnhau
- Gohebiaeth

Sylwer bod cyfarfodydd CYSAG Caerffili a drefnwyd ar gyfer Tymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf wedi cael eu canslo o ganlyniad i effaith y pandemig COVID-19.

ATODIAD 3: DOSBARTHU'R ADRODDIAD

Caiff copïau eu hanfon yn electronig at y cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan CCYSAGauC er mwyn i bartïon sydd â diddordeb ei lawrlwytho.

Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cadeirydd Craffu Addysg

Cyfarwyddwr Rhanbarthol SEWC

Swyddog Addysg Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Addysg Grefyddol

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob Ysgol yn y Fwrdeistref Sirol

Pob aelod o CYSAG

Prifathrawon a Chyrff Llywodraethu pob Coleg yn y Fwrdeistref Sirol

Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)

Y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cynulliad Cymru

ESTYN